

Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol

Cofnodion y Cyfarfod:

Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:	Camddefnyddio a Dibyniaeth ar Sylweddau / Substance misuse and addiction
Dyddiad y cyfarfod:	24.01.22
Lleoliad:	Gweminar Zoom

Yn bresennol:

Enw:	Teitl:
Peredur Owen Griffiths AS	Aelod o'r Senedd Plaid Cymru dros Ddwyrain De Cymru
Dr Altaf Hussain AS	AS Ceidwadwyr Cymreig dros Orllewin De Cymru
Andrew Bettridge	Ar ran John Griffiths AS
Brody Anderson	Ar ran Jayne Bryant MS
Martin Blakebrough	Prif Swyddog Gweithredol, Kaleidoscope
Gareth Llewellyn	Staff cymorth Aelod
Helen Parfitt	Rheolwr swyddfa
Alisha Arthur	Swyddog Ymgyrchoedd a Chyfathrebu, Kaleidoscope
Rhestr Ddosbarthu Sectorol y grŵp	

Crynodeb o'r cyfarfod:

Sylwadau agoriadol a materion ffurfiol

Etholwyd Peredur Owen Griffiths AS yn Gadeirydd y grŵp yn ffurfiol.
Etholwyd Kaleidoscope yn ysgrifenyddiaeth y grŵp.
Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp cyn trafodaeth yn y Senedd ar bolisi cyffuriau a gynhelir yfory (25.01.22)

Croesawodd Peredur Owen Griffiths AS bawb i'r cyfarfod a nododd yr ymateb aruthrol i sefydlu'r grŵp.

Diolchodd i Martin a thîm Kaleidoscope am eu holl waith yn helpu i sefydlu'r grŵp yn dilyn cyfarfod rhyngddynt hwy a chyn-Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Arfon Jones. Mae llawer o bethau y gallwn eu gwneud yng Nghymru, er nad yw'r system cyfiawnder troseddol wedi'i datganoli. Nod y grŵp yw hwyluso sgwrs eang ar y pwnc a chlywed gan y rhai sydd â phrofiad bywyd o'r pwnc, yn bersonol ac yn broffesiynol.

Dyweddodd prif swyddog gweithredol Kaleidoscope, Martin Blakebrough, nad oes angen i ddiwygio'r polisi cyffuriau a gwella gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru fod yn fater gwleidyddol. Mae gan Gymru gefnogaeth drawsbleidiol i reoli defnyddio sylweddau fel mater iechyd, nid mater cyfiawnder troseddol. Y gobaith yw y bydd y grŵp trawsbleidiol yn helpu i hwyluso mwy o gyfleoedd a mwy o obaith.

Crynodeb o'r siaradwyr, yn rhannu eu profiadau bywyd amrywiol o golled, caethiwed a gwasanaethau defnyddio sylweddau yng Nghymru:

Rhannodd ymgyrchydd Anyone's Child, **Pat Hudson**, ei phrofiad personol ei hun o sut roedd polisi cyffuriau cyfredol wedi gwneud cam â'i mab a pham ei bod yn eiriol dros reoleiddio cyfreithiol.

Adroddodd Pat stori ei mab, Kevin, a pham ei bod yn credu y byddai'n dal yn fyw heddiw pe bai'r polisi wedi bod yn wahanol.

Mae llawer o straeon am golled ar wefan Anyone's Child ac anogodd Pat bobl i ddarllen y rhain.

Y consensws yn symudiad tuag at bolisi sy'n gwella calonnau a meddyliau, sy'n cefnogi yn hytrach na chosbi.

Ni wnaeth profiadau Kevin o ymwneud â gwasanaethau cyffuriau helpu gyda'i iechyd meddwl, ac roedd y model wedi ei adael hyd yn oed yn fwy agored i orddos.

Dyweddodd Pat fod profiad Kevin wedi dysgu'r canlynol iddi:

- Bod angen canolfannau atal gorddos – rwy'n argyhoeddedig y byddai Kevin yn dal i fod yma pe na bai'n cael ei orfodi i chwistrellu mewn toiled cyhoeddus dan glo a bod ganddo yn hytrach le diogel i chwistrellu.
- Bod angen triniaeth heroin â chymorth - mae meddwl am amnewidion opioid yn atal llawer o bobl rhag mynd at wasanaethau triniaeth.
- Bod angen llawer mwy o gymorth iechyd meddwl a seicotherapi – er mwyn mynd at wraidd dibyniaeth.
- Bod angen cynlluniau dargyfeiriol sy'n osgoi rhoi dedfrydau cosbol i'r rhai sydd ar gam cynnar o ddefnyddio cyffuriau arbrofol.

Dangosodd Cymru arweinyddiaeth yn y DU drwy ddatblygu ei rhaglen gwirio diogelwch cyffuriau drwy'r post WEDINOS a gydnabyddir yn rhyngwladol, ond erbyn hyn mae hi y tu ôl i Loegr a'r Alban. Mae llawer o wledydd ledled y byd wedi cyflwyno clinigau triniaeth a/neu ganolfannau atal gorddos gyda llwyddiant mawr wrth frwydro yn erbyn marwolaethau

cysylltiedig â chyffuriau ac wrth gyflwyno pobl ifanc i'r gwasanaethau iechyd meddwl a chorfforol sydd eu hangen arnynt yn aml.

Dolenni defnyddiol

Dyma ychydig yn rhagor gan Pat am stori ei mab Kevin <https://anyoneschild.org/pat/> a phrosiect Anyone's Child <https://transformdrugs.org/drug-policy/uk-drug-policy/overdose-prevention-centres> <https://transformdrugs.org/drug-policy/uk-drug-policy/heroin-assisted-treatment> <https://transformdrugs.org/drug-policy/uk-drug-policy/diversion-schemes>

Gwasanaeth gwirio diogelwch cyffuriau WEDINOS <https://www.wedinos.org/>

- Dywedodd **Terry**, sy'n alcoholig cronig, sut y llwyddodd i drawsnewid ei fywyd yn llwyr ar ôl i swyddog carchar ei gyfeirio at Alcoholics Anonymous bron i 27 mlynedd yn ôl.

Disgrifiodd Terry sut y daeth o deulu da a bu ei rieni yn briod am bron i 60 mlynedd. Nid yw'n esgusodi trosedd na thrais, er eu bod yn ymddangos yn ei stori.

Dechreuodd Terry yfed yn 14 oed a dewisodd fyw bywyd o droseddau am 20 mlynedd. Tra'n ddibynnol ar alcohol treuliodd bedwar cyfnod yn y carchar a threuliodd dros 19 mlynedd dan glo. Disgrifiodd fel nad oedd ganddo amgyffrediad moesol nac yn ymwybodol o'r tristwch roedd yn ei achosi i'w rieni. Am 12 mlynedd gyntaf bywyd ei ferch, roedd ganddi alcoholig troseddol fel tad.

Disgrifiodd Terry sut y rhoddodd swyddog carchar, ar ôl darllen ei ffeil, lyfr gan Alcoholics Anonymous iddo. Nid oedd ganddo ddim byd arall i'w wneud, ac felly darllenodd y llyfr.

Cafodd Terry foment bwlb golau ar ôl darllen adran "barn meddyg" y llyfr, a sylweddolodd ei fod yn alcoholig. O hynny ymlaen mynychodd gyfarfod bob wythnos.

Oherwydd yr holl newidiadau cadarnhaol yr oedd wedi eu gwneud yn ei fywyd gyda chefnogaeth Alcoholics Anonymous, rhyddhaodd y bwrdd parôl Terry i'r gymdeithas. Dyma'r hiraf y mae wedi'i dreulio allan o'r carchar.

Mae Terry yn mynychu o leiaf un cyfarfod y dydd i gynnal ei adferiad. Mae bellach yn dad gwell ac mae'n daid i ddau o blant sydd erioed wedi ei weld yn yfed.

- Rhannodd y gweithiwr allgymorth ac ymgyrchydd **Elwyn 'Tommy' Thomas** ei brofiadau o'r system cyfiawnder troseddol, a sut mae gan gyd-gynhyrchu gwasanaethau defnyddio sylweddau gyda'r rhai sydd â phrofiad bywyd o'r pwnc y pŵer i drawsnewid bywydau.

Er gwaethaf magwraeth grefyddol iawn, dywedodd Tommy iddo ddechrau ysmegu canabis yn 14 oed, ar ôl penderfynu bod Howard Marks yn fodel rôl.

Cynyddodd defnydd cyffuriau Tommy yn gyflym, ac yn 15 oed cludodd swm helaeth iawn o LSD o Amsterdam a achosodd iddo gael ei ddedfrydu am y tro cyntaf erioed mewn amgylchedd rheoledig. Ni wnaeth ei brofiad o ddull gweithredu cosbol ei atal rhag troseddau, ond dyma oedd cofnod mwyaf anhapus ei fywyd.

Yn 19 oed dechreuodd Tommy weithio fel bownsar mewn clybiau nos lleol, a daeth cyffuriau yn rhan fwy cyffredin o'i fywyd. Drwy ymwneud â throseddau cyfundrefnol, treuliodd Tommy 37 mlynedd dan glo am droseddau yn ymwneud â chyffuriau rhwng 1982 a 1990.

Pan aeth Tommy i'r carchar am y tro olaf daeth i gysylltiad ag Ymddiriedolaeth Shannon, gan ddysgu carcharorion sut i ddarllen ac ysgrifennu llythyrau gartref. Dyma pryd y sylweddolodd fod ganddo ochr anhunanol.

Dyweddodd Tommy y gall bod ag ystyr a chyfrifoldeb, pan fyddwch chi'n barod amdano, eich gosod ar lwybr gwahanol. O'r fan honno dechreuodd Tommy wirfoddoli gyda Kaleidoscope, mae wedi cwblhau gradd meistr mewn cyfiawnder troseddol, ac mae'n aelod o sawl bwrdd cynghori'r Llywodraeth i lywio polisi ac arwain ar welliannau mewn lleihau niwed.

Nawr mae Tommy'n ceisio creu'r cyfleoedd hyn i bobl yn ei waith allgymorth bob dydd. Mae cynllun peilot diweddar, a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer dosbarthu cymheiriaid, yn achub bywydau yng Nghasnewydd, ac mae cymheiriaid Tommy, sydd â phrofiad bywyd o gaethiwed hirsefydlog, yn credu ei fod wedi dod â phwrpas ac ystyr i'w bywydau. Mae Tommy'n credu ei bod yn hollbwysig cynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd o'r pwnc wrth ddylunio, darparu ac adolygu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ledled Cymru.

Crynodeb o gwestiynau, sylwadau ac awgrymiadau a godwyd:

O ran cyfiawnder troseddol, dywedodd y rhai a oedd yn bresennol y canlynol:

Mae stori Terry a Tommy ill dau yn amlygu pwysigrwydd cyfleoedd a chefnogaeth tra yn y carchar.

Mae ymyrraeth gynnar yn hollbwysig – mae angen inni sicrhau bod gennym ystod o wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws pob grŵp oedran.

Mae'n her i helpu pobl sy'n gaeth i gyffuriau pan mai'r gwirionedd yw y byddant yn parhau i droseddu ar ôl iddynt gael eu cyfeirio at ein gwasanaeth, a fyddai wedyn yn golygu y byddant wedi torri eu contract gyda ni. Nid yw pobl yn ymatal yn hudolus oherwydd yr atgyfeiriad, felly mae bwlch yno yn syth lle mae angen inni gynnig mesurau lleihau niwed a chydbwyso rhwymedigaethau o fewn y system cyfiawnder troseddol presennol.

Mae'r straeon a rennir yn amlygu'r angen i'r system cyfiawnder a gwasanaethau iechyd gydweithio. Mae angen cyfleoedd cynnar ar gyfer addysg a dargyfeirio ond hefyd mesurau i amddiffyn cymunedau rhag canlyniadau niweidiol iawn. Rhaid i iechyd a chyfiawnder ddarparu cyfleoedd ailadroddus a diderfyn ar gyfer triniaeth a newid (drwy unrhyw fodel sy'n gweithio) heb stigma na sinigiaeth, ond gyda gobaith gwirioneddol.

O ran diwygio polisi, dywedodd y rhai a oedd yn bresennol y canlynol:

Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwmo i gyflwyno ein Triniaeth â Chymorth Heroin i'r 10% o bobl sy'n defnyddio heroin nad yw triniaethau eraill wedi gweithio iddynt, ac yn bwriadu agor canolfannau atal gorddos. Maent wedi ehangu dargyfeirio troseddau cyffuriau, ac mae 3 peilot gwirio diogelwch cyffuriau yn agor. Maent wedi ymrwmo i roi presgripsiwn am fethadon ar yr un diwrnod i bawb sydd ei angen er mwyn osgoi methu ffenestr at driniaeth. Gadewch i ni weld Llywodraeth Cymru yn gwneud yr un peth.

Pa bolisiau yn union fydddech chi'n dweud sydd angen eu newid / addasu? Atebodd Pat:

- I. Canolfan lleihau rhagor ar niwed ymhob tref sydd â phroblemau cyffuriau sylweddol (a elwir hefyd yn ganolfannau atal gorddos)
- II. Mwy o ddefnydd o driniaeth herion â chymorth
- III. Ehangu gwasanaethau iechyd meddwl a darpariaeth triniaeth cyffuriau a chysylltiadau agosach rhyngddynt
- IV. Ymestyn cynlluniau dargyfeirio a pholisi cyson ar gynlluniau rhwng ardaloedd plismona

O ran iechyd meddwl, dywedodd y rhai a oedd yn bresennol y canlynol:

Mae angen gwneud mwy o waith gyda gwasanaethau iechyd i reoli ac ymdrin â phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau defnyddio sylweddau sy'n cyddigwydd. Dylai pobl gael eu trin yn gyfannol. Mae angen pwysu ar fyrddau iechyd ar y mater hwn.

Nid yw gwasanaethau iechyd meddwl yn ymateb yn ôl yr angen o ran pobl â phroblemau caethiwed – pam bod mater camddefnyddio sylweddau mewn unrhyw ffordd yn dal i gael ei ganiatáu fel ffordd o eithrio pobl o wasanaethau iechyd meddwl?

Mae angen dull gweithredu system gyfan o atal sylfaenol i driniaeth. Ffocws ar les meddwl cymunedau a gwasanaethau iechyd meddwl sydd ag adnoddau priodol, yn ogystal ag ystyried y cysylltiadau â thlodi neu ddiffyg cyfleoedd ar gyfer y cymunedau hyn.

Mae'r gwahaniaeth rhwng dulliau gweithredu gwasanaethau yn amlwg, ac mae gofal a rennir gan feddygon teulu a gwasanaethau iechyd meddwl ar draws gwahanol fyrddau iechyd yn achosi dilyniant gwael a diffyg ymgysylltu. Mae angen dull gweithredu cydgysylltiedig i roi cyfle teg i wasanaethau ac unigolion gael ymyriad cynnar. Rydym yn argymhell y dylai meddygfeydd teulu ymgysylltu mwy â thimau cyffuriau ac alcohol cymunedol.

Rhwyrstr arall rydym wedi'i nodi yw 'rhestr aros' ar gyfer cael mynediad at wasanaethau cyffuriau. Mae llawer o bobl yn gorddosio ac yn marw cyn iddynt gael y cyfle i dderbyn ymyrraeth/triniaeth. Yr unig argymhelliad ar gyfer hyn fyddai buddsoddi mwy o arian mewn lefelau staffio ar gyfer y GIG a gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus. Hyfforddi nyrsys ym mhob ysbyty, gan ddarparu citiau naloxone a nodi gorddos/diddyfnu opioid mewn modd mwy amserol. Mae gweithio ar fodel lleihau niwed yn hanfodol i atal marwolaethau a dibyniaeth bellach. Mae angen rhagor o nyrsio iechyd meddwl/nyrsio dibyniaeth mewn canolfannau digartrefedd.

O ran allgymorth ac atal gorddos, dywedodd y rhai a oedd yn bresennol y canlynol:

Mae angen i ni roi cynnig ar liferi fel llythyrau o gysur yn hytrach na derbyn na allwn wneud dim.

Byddai manau cyfnewid nodwyddau yn amgylchedd rheoledig delfrydol i ganiatáu chwistrellu dan ofal a goruchwyliaeth clinigwyr a chymheiriaid fel ei gilydd ar ffurf llythyrau o gysur.

Mae angen inni benderfynu sut y gallwn wneud pethau'n wahanol yng Nghymru heb newid deddfwriaeth yn San Steffan. Sut gallwn ni ddefnyddio llythyrau o gysur gan y Cwnsler Cyffredinol neu benaethiaid yr heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau i gyflwyno mentrau lleihau niwed fel pibau crac ac ati. Da o beth fyddai petai ASau trafod hyn gyda Lynne Neagle.

Ym Mae Abertawe rydym wedi gwella ein systemau o ran nodi'r rhai sydd wedi cael gorddos nad yw'n angheuol ac rydym wedi rhoi protocol 72 awr ar waith lle mae gwasanaethau allgymorth yn ymweld â'r rheini sydd wedi cael gorddos i ddarparu ymyriadau lleihau niwed a chyfeirio at wasanaethau. Mae hyn yn gweithio'n dda ac rydym yn nodi pobl nad ydynt efallai erioed wedi defnyddio gwasanaethau defnyddio sylweddau. Mae angen i wasanaethau fod yn rhagweithiol wrth ddod o hyd i bobl a gweithio gyda nhw yn hytrach na disgwyl i bobl ddod atynt. Mae angen llawer o ddewrder ac ysgogiad i fynd at wasanaethau. Mae angen llawer o ddal dwylo, cefnogaeth a dealltwriaeth ar bobl sy'n profi bywydau anhrefnus er mwyn gallu symud ymlaen.

Adsefydlu i'r rhai sy'n barod wedi'u hysgogi ar ei gyfer. Ond mae adroddiad y Cyngor Cyngorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau ar leihau marwolaethau sy'n gysylltiedig ag opioidau ar gyfer Llywodraeth y DU yn dweud y canlynol am adsefydlu preswyl:

"Mae'n hysbys bod dibyniaeth ar heroin yn anhwylder cronig gyda chyfraddau uchel iawn o atglafychu. Fel arfer, dim ond lleiafrif (amcangyfrifir llai na 30%) o ddefnyddwyr heroin sy'n dechrau triniaeth fydd yn cyflawni ymataliad sefydlog mewn 10 i 30 mlynedd. Ni fydd llawer o bobl sy'n ymatal yn dal i ymatal, a byddant yn llithro'n ôl i ddefnydd opioid. Mae hyn yn risg hysbys ar gyfer gorddos a marwolaeth, gan fod defnyddwyr yn colli goddefiad i opioidau yn ystod cyfnodau o ymatal." Felly, y gwir amdani yw nad yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio cyffuriau yn barod ar unrhyw adeg benodol i ymatal, ac oni bai ein bod yn mynd i'w gadael (a'r rhai nad ydynt yn ymgymryd â thriniaeth) i ddioddef a marw, mae angen inni leihau rhagor o niwed a chynnig triniaethau amnewidion opioid ac ati.

Fel grŵp cyfunol mae angen rhoi'r gorau i'r ddadl 'adfer v lleihau niwed', gyda dull gweithredu gydlynol ar draws pob elfen o wasanaethau er mwyn gweithio tuag at nod cyffredin. Mae cyd-gynhyrchu yn allweddol, ond rhaid i hyn ddechrau gydag awydd i gydweithio, wedi'i gefnogi gan strwythurau comisiynu ac adnoddau priodol.

O ran comisiynu a chyd-gynhyrchu, dywedodd y rhai a oedd yn bresennol y canlynol:

Yn aml gall comisiynu gwasanaethau greu rhwystrau, a rhwystro arloesedd a chyd-gynhyrchu. Sgil effaith strwythurau comisiynu a chreu tendro cystadleuol yw llai o effeithlonrwydd a cholli cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Yn aml caiff cydbwysu rôl y gweithiwr proffesiynol/arbenigwr ei flaenoriaethu neu rhoddir mwy o bwyslais arno na'r rhai sydd â phrofiad bywyd / arbenigedd eu hunain / cymorth gan gymheiriaid. Mae hyn yn aml yn arwain at ymylu o ran ariannu'r dulliau gweithredu a'r ystyriaeth a roddir iddynt.

Rhaid inni sicrhau bod gwasanaeth mentora cymheiriaid Cyfle yn parhau.

Roedd y cwestiynau a ofynnwyd gan y rhai a oedd yn bresennol yn cynnwys:

Sut y bydd y grŵp hwn yn ymwneud â'r grŵp trawsbleidiol ar dai a digartrefedd? Mae yna lawer o faterion cydberthynol.

Allwn ni symleiddio teitl y grŵp... Mae bod â cham-drin a chamddefnyddio yn yr un teitl yn ddiangen. Credaf fod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gamddefnyddio Sylweddau yn ddigonol.

Pe byddech yn gweld un llwyddiant o'r grŵp hwn, beth fyddai hwnnw? Sut gall y grŵp ddylanwadu ar/herio ail-gydbwysu neges graidd/cyfeiriad dull gweithredu polisi LIC?

Beth yw'ch barn am gynlluniau dargyfeirio troseddau cyffuriau, sydd bellach yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth y DU? Mae'r rhan fwyaf yn anfon pobl sy'n cael eu dal â chyffuriau at eu defnydd eu hunain ar gyrsiau addysg cyffuriau neu gymorth arall. Ym Mryste gall pobl ifanc sy'n cael eu dal yn gwerthu cyffuriau (yn enwedig rhai lle'r oedd eu rhieni ac ati hefyd yn gwneud hynny) fynd ar y cynllun 'Galw heibio' yn hytrach nag erlyniad gan gynnig gweithiwr allweddol iddynt gyfarfod â nhw, a gwersi gyrru, dosbarthiadau ffitrwydd a chyfleoedd gwaith yn lle erlyniad mewn ymgais i roi "ail gyfle" iddynt. <https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/young-drug-dealers-free-driving-lessons-call-in-scheme-bristol-avon-somerset-police-a9081881.html>

A all y grŵp edrych ar rannu gwybodaeth ynghylch digwyddiadau nad oeddynt yn angheuol? Rhwng 2018 a 2020 cofrestrwyd 522 marwolaeth o ganlyniad i 'gamddefnyddio cyffuriau' ledled Cymru, gyda rhagor yn 2021. Does dim rhannu gwybodaeth ffurfiol am digwyddiadau nad oeddynt yn angheuol gan adrannau damweiniau ac achosion brys na WAST, felly does dim cyfle i ymyrryd. Mae tystiolaeth bod unigolion a oedd "bron a marw" yn dioddef gwenwyno angheuol o ganlyniad i gyffuriau yn ddiweddarach.

Beth yw'r ymrwymiad gan ASau i wneud hwn yn grŵp gweithredu yn hytrach na fforwm drafod?